

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 13eg Rhagfyr 2022.

Presennol– Mari E M Mathews Cadeirydd, Catherine Williams, Ffiona Jones, Anna Brown, Cyng Elisabeth Roberts, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau - Neil Pringle, Janet Charlton
Datgan diddordeb - Dim datganiad
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 14eg Dachwedd 2022
Materion yn codi

[1] Yr Heddlu

Cyfeiriodd y clerc at yr adroddiad canlynol gan SCHG Peter Jones;

[a] Dim troseddu

[b] Ymddygiad gwrth gymdeithasol. beiciau modur yn codi swm eu moduron ac yn reidio yn ol ac ymlaen ar Ffordd yr Orsaf. Dim rhif cofrestriad y moduron ar gael, ymchwiliad wedi ei wneud ond yn anffodus y beiciau modur wedi gadael.

[c] Nodwyd ymateb y Prif Arolygwr Jeff Moses i gais gan y Cyngor ar gyfer gwneud penodiad SCHG i'r pentref/gymuned

[1.1] Pont Droed/ Pont-y-Pair

Gan nodi sylwadau y Cyngor Sir trwy'r Cyng Elisabeth Roberts, penderfynwyd gohirio'r mater ar hyn o bryd

[1.2] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Deallwyd bod y mater yn parhau

[1.3] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Dywedodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach gan y Parc Cenedlaethol. Y clerc I wneud ymholiadau pellach gyda APCE.

[1.4] Materion Parcio Bro Gethin

Dywedodd y Cadeirydd ei bod yn trefnu dogfen ar gyfer ceisio pris astudiaeth dichonldeb.

[1.5] Llystyfiant Pont-y-Pair

Dywedodd y Cyng E Roberts bod y Cyngor Sir mewn trafodaeth gyda cwmnïau ar gyfer gwneud y gwaith.

[1.6] Dyn mewn Fan

Nodwyd nad oedd ateb gan Edward Jones APCE ynglŷn â'r syniad i rannu 'r cynllun o ddyd mewn fan. Y clerc I gysylltu ymhellach.

[1.7] Atgyweirio/Pont-y-Soldiwr

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.8] Holiadur Cymuned

Penderfynwyd penodi swyddog i yrru'r prosiect ymlaen a hefyd prosiectau eraill. Y cadeirydd I gysylltu gyda'r Cyng Neil Pringle ynglun a'r dyletswyddau/ amodau gwaith.

[1.9] Clwb Peldroed Betws/ Codi Uchder y Fense

Dywedodd y clerc nad oedd pris wedi ei dderbyn ar gyfer gwneud y gwaith.

[2] Safle We'r Cyngor

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[2.1] Hen Eglwys Saint Mihangel

Eglurodd y clerc nad oes ateb wedi ei dderbyn gan y Parch Stuart Elliot ynglŷn â chyflwr y fynwent. Cytunodd y Cyng Janet Charlton i gael golwg.

[2.2] Mynwent Erw Hedd

Y clerc i drafod y mater ymhellach gyda'r Cyng Neil Pringle.

[2.3] Galw Heibio/ Eglwys Santes Fair

Dywedodd y Cyng Anna Brown bod pobl o gefndir gwahanol yn y pentre wedi galw a bod pawb wedi mwynhau. Mae bwriad i gynnal y digwyddiad eto yn y flwyddyn newydd.

[2.4] Canolfannau Clyd

Dywedodd y clerc iddo anfon cais ar ran y Cyngor i CGGC am grant ar gyfer darparu canolfan glyd. Penderfynwyd trafod y mater pan ddaw canlyniad y cais.

Y Brif Agenda

[2.5] Materion Cynllunio

Gwaith adnewyddu allanol, cadw 3 pod glampio, gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan ayb.

Gwesty'r Rhoadr Ewynnol, Betws-y-Coed

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r cais uchod

[2.6] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc i ddiwedd Tachwedd 2022

[b] Eglurodd y clerc bod y nifer yn ymweld ar Raeadr Ewynnol wedi gostwng yn gymharol i gyfnod mis Tachwedd 2021.

[c] Presept, Gan nodi'r arian wrth gefn, penderfynwyd pedio gosod presept ar gyfer y flwyddyn ariannol 2023/24

[2.7] Gohebiaeth Mr Gareth Jones

Nodwyd gohebiaeth gan Mr Gareth Jones ynglŷn â'r canlynol [a] Bwriad i ychwanegu goleuadau ar Stryd y Felin [b] Goleuadau Nadolig.

[2.8] Gwelliannau Glan yr Afon Pont-y-Pair

Deallwyd gan C T Roberts y byddai'r gwelliannau yn debygol o ddechrau yn y flwyddyn newydd ond yn amodol ar y tywydd.

[2.9] NALC Ychwanegiad Cyflogau/ Cyflog y Clerc

Nodwyd yr ychwanegiad yn effeithiol 1af Ebrill 2022. NALC pwynt 5 yn gysylltiedig â 25 awr yr wythnos.